# Datganiad o euogfarnau

A oes gennych unrhyw rybuddiadau neu euogfarnau amodol heb eu disbyddu o dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974?

OES / NAC OES

Os oes, rhowch fanylion gan gynnwys dyddiadau.

Os yw'r Proffil Swydd wedi nodi y bydd y swydd yr ydych yn gwneud cais amdani yn destun gwiriad DBS safonol neu fanwl, atebwch y cwestiwn canlynol.

A oes gennych unrhyw rybuddiadau oedolion (syml neu amodol) neu euogfarnau sydd wedi'u disbyddu nad ydynt wedi'u diogelu fel y'u diffinnir gan Orchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2020?

OES / NAC OES

Os oes, rhowch fanylion gan gynnwys dyddiadau.

**Ni fydd cael cofnod troseddol o reidrwydd yn eich atal rhag gweithio i'r Cyngor. Bydd hyn yn dibynnu ar natur y swydd ac amgylchiadau a chefndir eich troseddau.**

Mae'r diwygiadau i Orchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 (2013 a 2020) yn golygu, wrth wneud cais am swyddi a gweithgareddau penodol, bod rhai euogfarnau a rhybuddiadau yn cael eu hystyried yn 'warchodedig'. Mae hyn yn golygu nad oes angen eu datgelu i gyflogwyr, ac os cânt eu datgelu, ni chaiff cyflogwyr eu hystyried.

Mae canllawiau ynghylch a ddylid datgelu euogfarn neu rybuddiad ar gael ar wefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae gwiriwr datgeliadau ar-lein y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn wasanaeth newydd sy'n cael ei dreialu a gall fod yn ddefnyddiol:

Rhybuddiad neu euogfarn - Gwirio pryd i ddatgelu rhybuddiadau neu euogfarnau - GOV.UK (check-when-to-disclose-caution-conviction.service.gov.uk)

Mae cymorth ar gael gan Unlock, elusen eiriolaeth annibynnol genedlaethol sy'n cefnogi pobl â chofnodion troseddol i symud ymlaen yn gadarnhaol yn eu bywydau. Datgelu cofnodion troseddol i gyflogwyr - Unlock

**Rhybudd:**
Os cewch eich gwahardd rhag cymryd rhan mewn gweithgaredd a reoleiddir gyda grŵp

agored i niwed, mae’n drosedd os ydych yn ceisio, yn cynnig neu’n cymryd rhan mewn gweithgaredd a reoleiddir gyda grŵp yr ydych wedi’ch gwahardd rhag gweithio neu wirfoddoli gydag ef.

Bydd unrhyw ymdrechion o'r fath gan unigolion sydd wedi'u gwahardd yn cael eu dwyn i sylw'r Heddlu.